

## DYSGU A LLES YN YR AWYR AGORED

### CYDLYNYDD POWYS: GWIRFODDOLI A HYFFORDDIANT ELAN LINK

£24,000-£25,000 pro rata

**30 a/w, Contract Cyfnod Penodol 2 Flynedd**

**Lleolir yng Nghwm Elan, Rhaeadr Gwy / a gartref**

Mae Tir Coed yn chwilio am unigolyn trefnus iawn ac sy'n gallu gweithio o'u pen a'u pastwn eu hunain. Byddant yn teimlo'n angerddol ynghylch cysylltu pobl gyda'r amgylchedd naturiol, eu cymuned a'u potensial. Bydd deiliad y swydd yn ymuno â thîm brwdfrydig a medrus o dri ym Mhowys, a thîm ehangach o 26, a fydd yn gweithio i ddarparu rhaglenni dysgu a lles i rai o'r rhai mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas ar draws siroedd Dyfed a Phowys.

<https://www.youtube.com/watch?v=8QQ26FUtUwc>

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymgeisio am y swydd hon, noder y broses ganlynol:

**Cais:** A fydddech gystal ag anfon llythyr eglurhaol (2 dudalen A4) sy'n nodi'n benodol sut yr ydych chi yn bodloni meini prawf hanfodol a dymunol y fanyleb person isod, ynghyd â CV byr (2 dudalen) at admin@tircoed.org.uk

**Dyddiad cau:** Dydd Sul 18 Ebrill 12am

1) Co-ordinate Tir Coed charitable programmes and 'primary purpose' traded activities

**Dyddiad cyfweiliadau:** 5 Mai.

## DYSGU A LLES YN YR AWYR AGORED

### MANYLEB Y SWYDD:

- 1) Cydlynu rhaglenni elusenol Tir Coed a gweithgareddau masnach 'prif ddiben' gan gynnwys cyrsiau hyfforddiant, diwrnodau gweithgarwch pwrpasol, gweithgareddau Allgymorth Birmingham, grwpiau gwirfoddoli a gweithgareddau hyfforddiant dilyniant ar draws safleoedd yng Nghwm Elan, gan weithio yn y coetiroedd ar draws y cwm ac mewn safleoedd yn yr awyr agored ym Mhowys yn bennaf. Mae taflen wybodaeth sy'n sôn am weithgareddau Tir Coed ar gael yma <http://tircoed.org.uk/what-we-do>
- 2) Datblygu a gweithredu rhaglen hyfforddiant a gwirfoddoli hollol gynhwysol ar gyfer Cynllun Partneriaeth Tirlun Elan Links, gan roi sylw arbennig i:
  - a Fuddsoddi yn Elan;
  - b Galluogi a Grymuso Elan;
  - c Profi Elan; a
  - d Goruchwylio darpariaeth Strategaeth Gwirfoddolwyr Cyfeillion Elan
- 3) Hyrwyddo gweithgareddau a recriwtio cyfranogwyr ar gyfer gweithgareddau elusenol.
- 4) Bod yn rheolwr llinell ar gyfer y tîm sirol (Mentor a dau Arweinydd Gweithgarwch), gan ddilyn gweithdrefnau rheoli llinell Tir Coed, a chael cyswllt gyda'r timau Achredu, Rheoli a Marchnata er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn llifo mewn ffordd effeithiol i'r ddau gyfeiriad.
- 5) Gweithio mewn partneriaeth gyda thirfeddianwyr er mwyn sicrhau bod cyrsiau hyfforddiant a gynllunnir yn cyd-fynd â chynlluniau rheoli safle, sicrhau caniatâd, caniatâd coedwigaeth a chytundebau datblygu.
- 6) Cynnal gwaith amserlennu blynyddol a rheolaidd trwy ymgynghori gyda'r holl bartïon, gan gynnwys cysylltu gydag Ymddiriedolaeth Cwm Elan, Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â phrosiect Elan Links er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'r prosiect yn gwella safle Cwm Elan, gan gynnig cyfres o brofiadau lleol a hyfforddiant pwrpasol.

## DYSGU A LLES YN YR AWYR AGORED

- 7) Datblygu rhwydwaith Powys o asiantaethau cyfeirio a phartneriaid.
- 8) Trefnu a datblygu rhwydwaith Birmingham o bartneriaid i gyflawni prosiect Profiad Elan.
- 9) Cydweithio'n agos gyda chyflogeion uniongyrchol Elan Links er mwyn sicrhau darpariaeth gydgysylltiedig, gan weithredu fel rhan o dîm ehangach Elan Links.
- 10) Rheoli cyllideb ar gyfer y sir, ac os ceir cytundeb Rheolwr Partneriaeth Elan Links, ceisio cyfleoedd cyllido lleol sy'n berthnasol i'r safleoedd.
- 11) Sicrhau cydymffurfiaeth gyda holl bolisiau a gweithdrefnau Tir Coed ac Elan Links yn ystod gweithgareddau Elan Links; a chyfrannu at eu datblygiad a'u hadolygiad.
- 12) Diogelu iechyd, diogelwch a lles cyfranogwyr, tiwtoriaid ac unrhyw un arall sy'n defnyddio'r safle bob amser.
- 13) Goruchwylio'r gwaith o fonitro'r Prosiect a'r Cyfranogwyr, gan sicrhau y bodlonir yr Allbynnau a'r Canlyniadau y cytunwyd arnynt gyda phob cyllidwr a bod y wybodaeth yn cynrychioli'r sefyllfa ddiweddaraf ac ar gael yn hawdd.
- 14) Adrodd bob mis a bob blwyddyn am ganlyniadau, gan ysgrifennu adroddiad am bob gweithgarwch safle er mwyn cyfrannu at adroddiadau chwarterol a goladir gan y timau marchnata a rheoli ar gyfer cyllidwyr prosiectau, Bwrdd Partneriaeth Elan Links a Bwrdd Ymddiriedolwyr Tir Coed.
- 15) Llenwi taflenni amser, hawliau teithio ac adroddiadau eraill yn ôl y gofyn mewn ffordd amserol.
- 16) Nodi unrhyw rwystrau sy'n atal cyflawniad llwyddiannus prosiectau a thargedau a chytuno ar unrhyw gamau gwella ac adfer sy'n angenrheidiol.
- 17) Mynychu cyfarfodydd tîm deufisol a chyfarfodydd datblygu deufisol i gydlynwyr, yn ogystal â threfnu cyfarfodydd yn ôl y gofyn ar gyfer y tîm sirol.

## DYSGU A LLES YN YR AWYR AGORED

### CYMWYSTERAU A PHROFIAD:

Mae'r cymwyseddau canlynol yn

### HANFODOL:

Yn gallu trefnu a rheoli amser mewn ffordd effeithiol, gan gwblhau gwaith yn unol â therfynau amser yn ôl yr angen

- Yn gallu gwneud gwaith annibynnol a threfnus er mwyn goruchwyllo amrediad o grwpiau
- Yn gallu rhwydweithio a gweithio gyda sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol
- Yn gallu cyfathrebu gydag ystod amrywiol o bobl trwy gyfrwng cyfryngau amrywiol
- Gwybodaeth / dealltwriaeth neu brofiad o weithio gydag unigolion neu grwpiau difreintiedig NEU ddealltwriaeth gadarn o gyfleoedd cyflogaeth a dilyniant posibl sydd ar gael yn y sector awyr agored.
- Sgiliau TG rhagorol, gan gynnwys profiad o ddefnyddio Microsoft Word, Outlook, Excel, PowerPoint.
- Yn gallu paratoi adroddiadau cynnydd cryno yn rheolaidd.

### DYMUNOL:

Yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl ac ysgrifennu yn Gymraeg i safon uchel

- Dealltwriaeth o goetiroedd a rheoli coetiroedd, y gwaith sy'n gysylltiedig ag arferion rheoli cynaliadwy a manteision cymdeithasol coetiroedd
- Rhwydweithiau sefydledig yn Sir Benfro gyda'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.
- Profiad o fonitro rhaglenni wedi'u hariannu
- Profiad rheoli llinell
- Profiad o gydlynw gwirfoddolwyr
- Profiad o waith marchnata a gwerthu

## DYSGU A LLES YN YR AWYR AGORED

### ERAILL:

Rhaid bod deiliad y swydd yn meddu ar drwydded yrru gyfredol ac yn gallu manteisio ar eu trafniadaeth eu hunain, wedi'i yswirio at ddefnydd busnes, oherwydd y bydd cryn dipyn o'ch gwaith yn ymwneud ag ymweld â gweithgareddau safle, a mynychu cyfarfodydd. Mae angerdd dros gynorthwyo cymunedau Cymreig a gwella coetiroedd at ddibenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn ddymunol.

### GWYBODAETH YCHWANEGOL:

#### **Cyflog:**

Y cyflog yw £24,000 pro rata ac fe'i telir ar ffurf ôl-daliadau misol. Wrth i amser fynd heibio a chaiff gweithgarwch ychwanegol ei sicrhau, bydd cyfle i'r cyflog hwn godi.

#### **Oriau:**

Swydd rhan-amser yw hon yn seiliedig ar 30 awr yr wythnos (4 diwrnod). Gellir cytuno ar drefniadau gweithio hyblyg trwy ddod i drefniant. Os bydd gofyn mynychu ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith arferol, yn ychwanegol i oriau gwaith arferol, gellir rhoi amser i ffwrdd yn ei le.

Ceir cyfle i gynyddu'r oriau hyn wrth i weithgarwch ddatblygu ac ehangu yn y sir.

#### **Gwyliau Blynyddol:**

Bydd deiliad y swydd yn cael 20 diwrnod o wyliau blynyddol pro rata, yn ogystal â gwyliau banc.

#### **Cyfnod Prawf:**

Bydd cyfnod Prawf o 6 mis yn berthnasol, a fydd yn dod i ben wrth gael cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol a neu Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr er mwyn sicrhau bod deiliad y swydd yn addas ar gyfer y swydd.

## DYSGU A LLES YN YR AWYR AGORED

### Lleoliad:

Lleolir y swydd rhwng Swyddfa Cwm Elan ac o gwmpas Cwm Elan, ynghyd ag amrywiaeth o goetiroedd/mannau gwyrdd eraill ar draws Powys. Disgwylir i ddeiliad y swydd weithio o'n Swyddfa yn Aberystwyth hefyd ar gyfer cyfarfodydd chwarterol, er mwyn sicrhau cyswllt rheolaidd gyda gweddill y tîm.

### Teithio a Chynhaliaeth:

Pan fydd gofyn i staff deithio ar y ffyrdd i gyflawni busnes swyddogol y tu hwnt i leoliadau gwaith arferol, cynigir lwfans milltiroedd o 40c y filltir at ddefnydd cerbyd preifat.

### Buddion:

Bydd deiliad y swydd yn ymuno â thîm cefnogol ac sy'n gweithio'n galed, sy'n cael ei gymhell gan y dymuniad i wneud gwahaniaeth i'w gymunedau lleol a bod yn rhan o ddatrysiad i rai o'r problemau anoddaf y mae ein cymunedau gwledig yn eu hwynebu; y newid yn yr hinsawdd, colli bio-amrywiaeth, anhwylder diffyg natur, diffyg cyfleoedd economaidd, a salwch.

Yn ogystal, mae Tir Coed yn cynnig:

- Cynllun pensiwn
- O leiaf 2 'ddiwrnod cwrdd i ffwrdd' y flwyddyn yn ymweld â mannau gwyrdd
- Hyfforddiant mewnol ac allanol
- Tîm dwyieithog, cyfeillgar a chefnogol; dynamig a chydweithredol
- Cyfle i ddatblygu'r rôl gydag amser
- Mae trefniadau gweithio hyblyg ar gael
- Sefydliad diogel, profiadol ac a barchir sy'n meddu ar gynllun strategol 5 mlynedd, cynllun busnes, model cyflawni enghreifftiol a chenhadaeth a gweledigaeth glir.

“GADEWCH I NI FOD YN RHAN O'R DATRYSIAD GYDA 'N GILYDD”